**FFURFLEN YMATEB – Cynnig i gau Ysgol Llanfihangel y Creuddyn**

Mae Cyngor Sir Ceredigion yn ymgynghori ar y cynnig i gau Ysgol Llanfihangel y Creuddyn o 31/8/25, gyda disgyblion yn trosglwyddo i Ysgol Llanilar.

Mae'r ffurflen ymateb ganlynol yn caniatáu rhanddeiliaid wneud sylwadau ar y prif gynnig, yr opsiynau amgen ac awgrymu opsiynau eraill.

Cyngor Sir CEREDIGION County Council

---

1. Pa un o'r canlynol sy'n disgrifio'ch cysylltiad â'r ysgol y mae'r cynnig hwn yn effeithio arni

- ☐ rhiant/ gofalwr neu warcheidwad
- ☐ darpar riant / gofalwr neu warcheidwad
- ☐ Llywodraethwr
- ☐ Staff
- ☐ Aelod o'r gymuned
- ☐ Cyngor cymuned

X Arall: nodwch os gwelwch yn dda Rhanbarth Ceredigion Cymdeithas yr Iaith

2. Rhowch unrhyw sylwadau ar y cynnig i gau Ysgol Llanfihangel y Creuddyn

Ni ddylai'r awdurdod lleol danseilio cymunedau, yn hytrach mae angen rhoi pob cyfle iddyn nhw ffynnu.

Yn ôl canlyniadau Cyfrifiad 2021 roedd 49% o boblogaeth ward Melindwr yn nodi eu bod yn siarad Cymraeg, bu dirywiad bach yn y ganran ers y Cyfrifiad blaenorol yn 2011 felly mae angen gwneud popeth posibl i atal dirywiad pellach, ac i gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg. Mae cynnal ysgol yn Llanfihangel-y-Creuddyn yn rhan hanfodol o hynny.

Nid ydym o'r farn bod y Cyngor wedi trin y gymuned fel partner llawn wrth fynd ati i lunio cynnig i gau yr ysgol. Wrth adolygu nifer y lleoedd mewn unrhyw ysgol rhaid i gymuned fod yn rhan o'r broses o'r dechrau, a dylai fod yn rhan o lunio cynigion ar gyfer y dyfodol.

Yn hytrach na thrafod y sefyllfa yn agored ar ddechrau'r broses o adolygu ysgolion y sir a chydweithio gyda'r gymuned ar ddatrysiad fyddai o fudd i'r cymunedau, mae'r cyngor wedi ymweld â llywodraethwyr a phenaethiaid ysgolion i ddweud y bydd cynnig i gau yr ysgol yn cael ei lunio, a gofyn wedyn i'r gymuned am syniadau amgen.
Mae trafod cau unrhyw ysgol yn creu ansicrwydd ymhlith rhieni a staff, felly mae dod at gymuned â chynnig i gau yr ysgol a gofyn iddynt gynnig opsiwn arall yn hynod niweidiol.

Mae llai o wariant mewn cymunedau gwledig yn gyffredinol gan fod llai o adnoddau yno i'w hariannu. Addysg trwy ysgol leol yw prif fuddsoddiad cynghorau mewn cymunedau gwledig ond mae ardaloedd mwy poblog yn derbyn buddsoddiad i bethau eraill.

Mae'n rhesymol felly bod mwy o wariant ar ysgolion sy'n cynnig mwy nag addysg mewn cymunedau gwledig gan y byddai llai o gyfanswm o wariant mewn ardaloedd gwledig o hyd.

3. A oes unrhyw opsiynau eraill y credwch y dylai'r Awdurdod Lleol fod yn eu hystyried ar gyfer Ysgol Llanfihangel y Creuddyn, a fyddai'n mynd i'r afael â'r materion a godwyd yn y Ddogfen Ymgynghori?

X Oes ☐ Nac oes

Os oes, amlinellwch yr opsiwn (opsiynau amgen):

Mae'r ddogfen ymgynghori yn nodi bod ffederasiwn rhwng Ysgol Llanfihangel-y-Creuddyn ac Ysgol Llanilar wedi ei ystyried wrth lunio'r cynnig i gau. Mae'r cyngor yn ymgynghori ar gynnig i gau Ysgol Llangwyryfon hefyd, ac mae ffederasiwn rhwng yr ysgol honno ac Ysgol Llanilar wedi ei ystyried yn yr ymgynghoriad hwnnw, ond nid yw'r un ymgynghoriad yn trin ffederasiwn rhwng y dair ysgol. Ni ellir ystyried creu dwy ffederasiwn ag un ysgol heb ystyried y cyfan gyda'i gilydd.

Er mwyn i ffederasiwn greu arbedion ariannol sylweddol mae angen ffederasiwn rhwng mwy na dwy ysgol; byddai ffederasiwn rhwng ysgolion Llanfihangel-y-Creuddyn, Llangwyryfon a Llanilar yn gallu arwain at arbedion tra'n cynnal y tair ysgol yn eu cymunedau yn ogystal â chreu perthynas gydweithio ehangach rhwng cymunedau.
Gan nad yw ffederasiwn rhwng y tair ysgol wedi ei gynnwys yn y ddogfen ymgynghori dydy'r ddogfen ddim yn adlewyrchu gwir effaith a photensial ffederasiwn yn ariannol ac yn gymunedol.

Gellid tynnu ysgolion eraill i'r ffederasiwn, gan gynnwys Ysgol Penweddig, i sicrhau dilyniant i addysg uwchradd Gymraeg, sydd yn wendid yng Ngheredigion yn ei chyfanrwydd, ond i Ysgol Llanilar hefyd.

Mae gan bob ysgol ei chryfderau a gallai pob ysgol fanteisio ar a rhannu'r cryfderau hynny er budd addysg y plant a'r cymunedau. Byddai rhannu adnoddau addysgol, a chreu cyfleoedd i ddisgyblion gydweithio ag ysgolion yn creu cyswllt rhwng y cymunedau ac yn annog cydweithio cymunedol ehangach.

Wrth ymdrin â ffedereiddio, does dim sôn am hynny na'r cyfle i ysgolion fanteisio ar gyfleusterau ei gilydd. Gallai plant symud rhwng yr ysgolion a galluogi plant o'r un oed gael eu dysgu gyda'i gilydd ar gyfnodau. Byddai cost fach i hynny wrth gwrs.

Mae ffedereiddio yn cael ei drin fel opsiwn gweinyddol yn hytrach na fel cyfle i ysgolion a chymunedau gydweithio a ffynnu.

4. A oes gennych unrhyw bryderon am effaith y cynnig i gau Ysgol Llanfihangel y Creuddyn ar unrhyw un o'r canlynol:

☐ y Gymuned

☐ Pobl â nodweddion gwarchodedig h.y. oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred, rhyw neu gyfeiriadedd rhywiol

☐ Arall: Nodwch os gwelwch yn dda ____________________

Rhowch fanylion pellach isod:

Mae bron i 60% o ddisgyblion presennol yr ysgol yn byw o fewn milltir, a’r disgyblion eraill yn byw o fewn pedair milltir i'r ysgol. Mae'n amlwg bod cysylltiad cryf â'r gymuned gan y rhieni a'r disgyblion.
O adael y gymuned i dderbyn eu haddysg gallai plant golli teimlad cryf o berthyn i’r ardal. Yn yr un modd mae’r ysgol yn ffordd i newydd-ddyfodiaid i’r ardal ddod yn rhan o’r gymuned. Heb ysgol yn y pentref byddai llai o gyfleoedd naturiol i rieni a theuluoedd ddod yn rhan o’r gymuned.

Gallai plant golli cyfle i fynd i glwb brecwast cyn yr ysgol ac i weithgareddau ar ôl ysgol. Mae clwb brecwast a gweithgareddau ar ôl ysgol yn y ddwy ysgol, ond o orfod teithio i ysgol mewn pentref arall, os nad oes rhiant yn gallu mynd â phlant ynghynt, byddai plant Ysgol Llanfihangel y Creuddyn yn ddibynnol ar fws ysgol ac yn colli cyfleoedd i gymdeithasu cyn ac ar ôl ysgol, bydd y cyfleoedd hynny i gymdeithasu yn Gymraeg hefyd. O fethu mynd gallai hynny atgyfnerthu’r syniad mai iaith addysg yn unig yw’r Gymraeg ac nad yw’n berthnasol i’r byd tu hwnt i’r ysgol.
Mae cost i rai gweithgareddau ar ôl ysgol Ysgol Llanilar hefyd, byddai methu mynd i glwb brecwast a gweithgareddau ar ôl ysgol yn effeithio yn enwedig ar blant o deuluoedd incwm isel.

5. Yn unol â Safonau'r Gymraeg mae’n ofynnol i ni ystyried effeithiau unrhyw benderfyniadau polisi ar y Gymraeg.

a. Yn eich barn chi, pa effeithiau cadarnhaol neu andwyol y byddai’r cynnig hwn yn ei gael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio’r Gymraeg ac i beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na’r Saesneg?
b. Sut ydych chi'n credu y gallai'r cynnig hwn gael ei lunio neu ei addasu er mwyn cael effaith positif neu mwy positif ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg?
c. Sut ydych chi’n credu y gallai’r cynnig hwn gael ei lunio neu ei addasu fel na fyddai’n cael effeithiau andwyol neu’n cael effeithiau llai andwyol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio’r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg?

Byddai cau’r ysgol yn sicr o effeithio yn andwyol ar y gymuned gan y byddai teuluoedd yn llai tebygol o aros yn yr ardal er mwyn magu plant. Mae tystiolaeth anecdotaidd yn dangos bod teuluoedd yn fwy tebygol o fod eisiau byw yn rhywle sy'n agos at ysgol a chyfleusterau eraill. Felly byddai colli'r ysgol yn gwneud Llangwyryfon yn llai deniadol i deuluoedd.

Gan mai tystiolaeth anecdotaidd sydd ar hyn o bryd, byddai cynnal ymchwil i’r hyn ddigwyddodd i blant, teuluoedd a chymunedau wedi i’w hysgol gau yn fuddiol felly, er mwyn mesur yr effaith.

Mae degau o ysgolion wedi eu cau yn y sir yn ystod y ddwy ddegawd ddiwetha ond ni fu asesiad o effaith ar unrhyw un o’r cymunedau hynny. Gofynnwn felly i chi gynnal asesiad o effaith cau ysgolion cynradd mewn ardaloedd amrywiol ar

draws y sir, ac ystyried:

- A barhaodd plant mewn addysg Gymraeg wrth drosglwyddo i'w hysgol newydd
- I ba ysgol uwchradd oedd disgyblion yn tueddu i fynd ac i ba ysgol uwchradd aeth y disgyblion o'u hysgol newydd
- I ba ysgol aeth y plant hynny - ai i'r ysgol yr oedd y cyngor yn bwriadu iddyn fynd, neu i ysgol arall, a pham i ddisgyblion aeth i ysgol arall ddewis gwneud hynny?
- Ydy'r gymuned a gollodd ei hysgol yn hyfyw o hyd - oes yr un nifer o grwpiau cymunedol yn dal i fodoli ac yn weithgar o hyd ac oes digwyddiadau cymunedol yn parhau os oedden nhw'n cael eu cynnal?
- A fu dirywiad i'r Gymraeg yn ôl canlyniadau'r Cyfrifiad dilynol, ac os felly, faint?
- Ydy demograffeg y gymuned wedi newid, ydy teuluoedd yn dal i fyw yn a symud i'r ardal
- Effaith cau ysgol ar les a datblygiad plant
- Beth sydd wedi digwydd i safle'r ysgol ac effaith hynny ar y gymuned

Ar hyn o bryd mae cymuned fywiog hunan-gynhaliol yno sy'n mynd ati'n rhagweithiol i drefnu digwyddiadau a gweithgareddau ohono'i hun.

Mae Cymdeithas Llanfihangel y Creuddyn yn defnyddio'r ysgol a gweithgareddau cymunedol yn cael eu cynnal ac mae'r ysgol yn ganolog i'r Gymraeg yn y gymuned.

Mae'r Eglwys yng Nghymru yn gyfrifol am yr adeilad a hi sydd yn penderfynu ar ddefnydd yr adeilad. Cael ei defnyddio fel ysgol mae'r adeilad yn bennaf, pe na bai defnydd cyson ohoni gallai'r Eglwys benderfynu nad oes angen adeilad heblaw yr Eglwys yn y pentref ar gyfer ei gweithgareddau. Byddai hynny'n golygu na fyddai lleoliad addas ar gyfer gweithgareddau cymunedol.

Ni ellir dweud felly byddai effaith niwtral i weithgareddau Cymraeg yn y gymuned at y dyfodol, fel sydd wedi ei nodi yn yr asesiad effaith iaith.

Hyd yn oed gyda cefnogaeth gan Cered, os na fyddai lleoliad gan y gymuned ar gyfer gweithgareddau byddai'n anodd cynnal y gweithgareddau ac felly y gymuned. Yn ogystal, mae pobl a chymunedau yn teimlo mwy o berchnogaeth dros bethau sy'n deillio o'r cymunedau eu hunain ac yn fwy tebygol o'u cynnal.

Wrth gyfrifo arbediad ariannol o gau yr ysgol, dylid cymryd cost unrhyw gefnogaeth o'r math i ystyriaeth gan y byddai goblygiadau ariannol i gefnogaeth o'r math.

Er i ddau ddisgybl fynd o Ysgol Llanfihangel-y-Creuddyn i Ysgol Penweddig ym mis Medi, dyna'r unig ddau i wneud hynny dros y deng mlynedd diwethaf, felly mae'n amlwg fod Ysgol Llanfihangel-y-Creuddyn yn sicrhau dilyniant i addysg uwchradd cyfrwng Cymraeg, dydy hynny ddim yn wir am Ysgol Llanilar. Mae disgyblion yn mynd oddi yno i ysgolion uwchradd Saesneg bob blwyddyn, felly ni ellid dweud i sicrwydd y bydd effaith niwtral i gyfraddau trosglwyddo i addysg uwchradd Gymraeg petai Ysgol Llanfihangel-y-Creuddyn yn cael ei chau.

Er nad yw trosglwyddo disgyblion o un ysgol Gymraeg i un arall yn ymddangos fel petai'n effeithio ar y Gymraeg, dydy ysgolion na chymunedau ddim yn sefydliadau ynysig, maent yn rhan o gymuned. Dyna pam y credwn y dylai'r cyngor edrych ar effaith cau ysgol ar gymunedau a'r Gymraeg yn y cymunedau hynny sydd wedi colli eu hysgol yn y gorffennol.

6. Ar ddiwedd y cyfnod ymgynghori, bydd Adroddiad Ymgynghori yn cael ei gyhoeddi yn crynhoi'r materion a godwyd gan ymgyngoreion ac ymateb yr Awdurdod Lleol i'r materion hynny.

A hoffech chi gael gwybod am gyhoeddiad yr Adroddiad Ymgynghori:

X Ie ☐ Na

Os oes, rhowch gyfeiriad e-bost neu gyfeiriad post: ymgyrch@cymdeithas.cymru